Cynnal a chadw batris camerâu yn ystod saethiadau

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â chynnal a chadw batris camerâu yn ystod saethiadau. Fe allai hyn fod yn berthnasol i unrhyw fath o gynhyrchiad gan gynnwys ffilmiau nodwedd, dramâu Teledu, hysbysebion, rhaglenni dogfen, rhaglenni chwaraeon, darllediadau tu allan a digwyddiadau byw neu ar lwyfannau. Fe allai fod yn berthnasol i gynyrchiadau aml-gamera neu gamera unigol.

Mae'n ymwneud â gofalu y caiff batris a'r gwefrwyr priodol eu defnyddio, monitro'r batris caiff eu defnyddio, gweithredu trefniadau gwefru, trefnu a labelu batris wedi'u gwefru a threfnu man storio priodol ar gyfer batris.

Mae'r safon hon ar gyfer unrhyw aelod o'r criw camera sy'n cynnal a chadw batris yn ystod saethiada.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. gwirio a chynghori ar y mathau addas o fatris
2. monitro'r batris rydych yn eu defnyddio'n barhaus
3. rhoi gwybod i'r bobl berthnasol pan fo angen newid y batris
4. gwirio bod y gwefrwyr yn addas ar gyfer y batris rydych yn eu defnyddio
5. gwefru'r batris yn unol â'r gofynion iechyd a diogelwch a'r gweithdrefnau gwefru y cytunwyd arnyn nhw
6. trefnu a gweithredu trefn ail-wefru fel bod yna gyflenwad cyson o fatris wedi'u gwefru
7. cadw digon o fatris er mwyn diwallu'r anghenion saethu a gwefru
8. rhifo'r batris wedi'u gwefru yn unol â'r drefn rydych yn bwriadu eu defnyddio
9. storio batris yn unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwyr
10. prynu cyfleusterau arbennig i storio batris pan fo angen

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. goblygiadau batris yn colli pŵer neu'n diffodd yn gyfan gwbl yn ystod saethiad
2. pwy ddylech chi eu hysbysu pan fo angen newid batris
3. sut a phryd i ymddwyn yn ymwthgar wrth ymwneud â gofynion newid batris
4. y batris a'r gwefrwyr priodol sy'n cyd-fynd gyda'i gilydd
5. sut i wefru a chydbwyso batris yn ddiogel
6. y mathau o fatris ac oes cymharol batris
7. effeithiau tymheredd ar fatris
8. sut i storio batris yn ddiogel ac a oes unrhyw ofynion storio arbennig
9. sut i drefnu batris ar gyfer eu gwefru
10. sut i labelu batris yn unol â'u statws
11. sut i atal dadwefru mewn camgymeriad
12. pa ddulliau sy'n bodoli er mwyn monitro'r batris rydych yn eu defnyddio

SKSC27

Cynnal a chadw batris camerâu yn ystod saethiadau

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | ScreenSkills |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 30 Maw 2020 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 31 Maw 2024 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | ScreenSkills |
| **RCU gwreiddiol** | SKSC13 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Y Cyfryngau a Chyhoeddi, Y Celfyddydau, Y Cyfryngau a chyfathrebu, Gweithwyr Proffesiynol Cysylltiedig â'r Cyfryngau |
| **Cyfres/Set** | Camera |
| **Geiriau Allweddol** | camera; batris; gwefrwyr; batris camera; cyfleusterau storio; storio; pŵer |